

CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis a H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd N. Mackie (Cadeirydd) a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Is-Gadeirydd).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.”

(b) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Adroddiad Trosolwg a Diweddarau Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR).

Cafodd y pwyntiau allweddol eu cyflwyno a'u trafod gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar y cyd â'i chydweithwyr, sef y tri Rheolwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, a'r Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg. Gwnaethon

nhw drafod nifer o feysydd, gan gynnwys absenoldeb salwch, cadw staff ar draws y GRhR (dull 'Tyfu ein Rhai ein Hunain' a phrentisiaethau rheoliadol), y sefyllfa ariannol ar gyfer Chwarter 2, monitro perfformiad, hyd at Gynllun Iechyd Porthladdoedd 2024-25, archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed (fel gorfodi troseddau newydd ar gyfer cyflenwi sylweddau cyrydol i'r rhai dan 18 oed), gorfodi trwyddedu, dyfarniadau diweddar (fel ynghylch gwaith y GRhR a phartneriaid wrth ddelio â chyflenwi tybaco anghyfreithlon a benthyca arian anghyfreithlon), gweithio gyda busnesau a'r economi leol ac enghreifftiau o weithgarwch gorfodi diweddar, ymhlith eraill.

Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn dymuno rhannu eu gwerthfawrogiad a'u diolchiadau nhw a rhai'r Pwyllgor am ymdrechion y gwahanol dimau ac arweinwyr a oedd yn ffurfio'r GRhR yn eu gwaith yn cefnogi ac yn diogelu busnesau lleol, cymunedau ac eraill, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd ganddynt o ran cyfyngiadau ariannol ac ymgymryd â newid sylweddol, fel trwy groesawu egwyddorion trawsnewid digidol i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am forâl timau'r GRhR, a dywedwyd wrtho er gwaethaf eu llwyth gwaith mawr fod staff y GRhR yn parhau'n ymrwymedig, yn frwdfrydig ac i gredu'n gryf mewn diogelu iechyd y cyhoedd a defnyddwyr. Cyfeiriodd hefyd at fanteision posibl trawsnewid digidol a gofynnodd am effaith y newid hwn, a sut mae defnyddwyr gwasanaethau, trigolion a busnesau wedi'i dderbyn. Esboniwyd bod digideiddio cyswllt, gwasanaethau, ac ati wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y grwpiau hyn, o ran eu bod yn dymuno gweld mwy o fynediad digidol at wasanaethau, i wneud taliadau ar-lein, ac ati.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.
- (2) Cymeradwyo Cynllun Iechyd Porthladd 2024-25 sydd ynghlwm yn Atodiad 3 i'r adroddiad.
- (3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Iechyd Porthladd 2024-25, pe bai angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir y trefniadau angenrheidiol ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau o ran Iechyd Porthladd.
- (3) Er mwyn gallu gwneud mân newidiadau, pe byddai angen yn codi yn ystod oes y Cynllun Iechyd Porthladd, heb fod angen dod ag ef yn ôl i'r Cydbwyllgor.

(e) Ffioedd a Thaliadau Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2025-26 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a nododd y ffioedd arfaethedig i'w codi gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ym mlwyddyn ariannol 2025-26 ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau trwyddedu a gwasanaethau eraill. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r argymhellion a wnaed mewn perthynas â phennu'r ffioedd hynny yr oedd yn gyfrifol amdanynt.

Er mwyn bod yn gyflawn, nododd atodlen yr adroddiad hefyd y ffioedd y byddai'n angen i'r GRhR eu codi yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 ond lle y'u pennwyd gan gyrff allanol fel y Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd a Llywodraethau Cymru a'r DU.

Fel rhan o'r broses pennu ffioedd flynyddol hon, cyfeiriwyd bob amser at y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) ar gyfer y mis Awst blaenorol wrth bennu cyfradd y cynnydd, ac roedd hyn yn gyson ag ystod o ffioedd a budd-daliadau llywodraethol. Yr MPD ar gyfer mis Awst 2024 oedd 3.1% (o'i gymharu â chyfradd o 6.3% ym mis Awst 2023), ac roedd hyn wedi'i gymhwysu i'r rhan fwyaf o'r ffioedd yn Rhan Un o Atodiad Ffioedd a Thaliadau yr adroddiad. Nodwyd yr eithriadau i hyn hefyd yn yr adroddiad, fel rheoli plâu, trwyddedu lleoliadau priodas a thrwyddedu cysylltiedig ag anifeiliaid, lle cynigiwyd cynnydd o fwy na 3.1%.

Y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

PENDERFYNWYD – Cytuno ar gynigion codi tâl a ffioedd GRR, fel y nodir yn Rhan Un i'r Atodiad i'r adroddiad, a chytuno i'w gweithredu fel a ganlyn:

- a. O 1 Ebrill 2025, ac eithrio
- b. Ffioedd Trwyddedu Gweithdrefnau Arbennig Cymru gyfan newydd a fyddai'n dod i rym ar unwaith.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(f) Arbedion Cyllideb Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Amlinellodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, gefndir a chyd-destun ariannu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) gan y tri Awdurdod partner.

Disgrifiwyd y daith arbedion ar gyfer y GRhR, o'r arbedion sylweddol a wnaed trwy ei ffurfio hyd at rai mwy diweddar yn 2022-23, ac eto yn 2023-24.

Mae Cyllideb Gytunedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2024-25 yn £8.813 miliwn, gydag oddeutu 175 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn golygu, 11 mlynedd ar ôl asesiad sylfaenol Atkins, er gwaethaf chwyddiant, dyfarniadau cyflog blynyddol a phwysau tebyg, fod y gwasanaethau statudol

hanfodol hyn yn cael eu darparu gyda £1.5 miliwn (15%) yn llai o gyllideb a 82 (32%) yn llai o staff. Hefyd, dros y cyfnod hwn, roedd y Gwasanaeth wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol dan feysydd rheoleiddio a deddfwriaeth newydd.

O ganlyniad i'r rhagolygon ariannol heriol iawn wrth ddechrau 2025-26, roedd yr awdurdodau partner bellach yn gofyn am i opsiynau ar gyfer arbedion pellach gan y gwasanaeth gael eu hystyried. Rhagwelwyd y byddai'r arbedion hyn yn cael eu cymryd o'r gyllideb gwasanaethau craidd a oedd yn un o gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor. Byddai'r opsiynau a'r ystyriaethau allweddol hyn yn cael eu nodi yn yr adroddiad cysylltiedig a fydd yn cael ei gyflwyno yn Rhan II o gyfarfod y Cydbwyllgor.

Yna, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r pwyntiau a amlinellwyd uchod, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad, gyda golwg ar wneud penderfyniadau ar adroddiad Arbedion Cyllideb y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(g) Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2024 Archwilio Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (PC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg a chan Reolwr Archwilio Archwilio Cymru, fanylion o ran sut y byddai Archwilio Cymru yn cwblhau'r gwaith dan sylw ym mis Ionawr 2025. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r Cynllun Archwilio arfaethedig, yn Atodiad A yr adroddiad.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at bwyntiau allweddol yr adroddiad, fel y dull archwilio, y lefelau perthnasedd, y prif risgiau archwilio, y ffi archwilio a'r amserlen archwilio.

Yna, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiad, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(h) Gwahardd Y Wasg a'r Cyhoedd –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

(i) Arbedion Cyllideb Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) (Gwybodaeth Eithriedig - Paragraffau 12, 13, 14 A 15) –

Amlinellodd yr adroddiad gefndir a chyd-destun ariannu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) gan y tri Awdurdod partner.

Yn unol â chais yr Awdurdodau partner, amlinellwyd sawl senario i archwilio dichonoldeb ac effaith cyflawni arbedion (o gyllideb gwasanaethau craidd 2024-25), cyn blwyddyn ariannol 2025-26.

Trafododd yr Aelodau y gwahanol senarios, gan godi nifer o gwestiynau a sylwadau ar y rhain. O ganlyniad i hyn, penderfynwyd bod y gofyniad i bennu cyllideb gytbwys erbyn 31 Rhagfyr 2024, fel yr amlinellir yng Nghytundeb Cydweithio'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, yn cael ei hepgor ar gyfer eleni, a bod cyfarfod eithriadol yn cael ei drefnu ar ddiwedd mis Ionawr 2025 (dyddiad i'w gadarnhau) i alluogi adborth gan yr Awdurdodau partner er mwyn cadarnhau cyllideb y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2025-26.

Y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad yng nghyd-destun cytuno ar lefel yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen ar y Cydwasanaeth yn 2025-26.

(2) Y dylid hepgor y gofyniad i osod cyllideb fantoledig erbyn 31 Rhagfyr, 2024 fel yr amlinellwyd yng Nghytundeb Cydweithio'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (JWA) am eleni, a bod cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu ar gyfer diwedd Ionawr 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).) caniatáu adborth gan yr Awdurdodau partner i gadarnhau cyllideb y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2025-26.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi penderfyniad gwybodus ar lefel yr arbedion sydd eu hangen ar yr Awdurdodau partner, gan gydbwyso'r amser arweiniol tynn cyn i'r arbedion ddod i rym, a chaniatáu ar gyfer goblygiadau Setliad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol. cael eu deall yn llawn ar gyfer pob un o'r Awdurdodau partner.